Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Adroddiad y Cydbwyllgor

## 17 Mai 2021

Yn gweithio ar ran
**Llywodraeth Cymru**
Working on behalf of the
**Welsh Government**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
| --- | --- |
| **1. Cyflwyniad** | **3** |
| **2. Dyrannu Gwaith i Unedau Darparwyr Gwasanaethau Awdurdodau Lleol** | **3** |
| **3. Trefniadau Partneriaeth** | **9** |
| **4. Gwasanaeth Traffig Cymru Llywodraeth Cymru** | **9** |
| **5. Gwasanaeth Swyddogion Traffig (GST) Llywodraeth Cymru** | **9** |
| **6. Cynrychiolydd yr Adran ar Gontract Dylunio Adeiladu Ariannu a Gweithredu (DBFO) A55 Llywodraeth Cymru** | **10** |
| **7. Bodloni Gofynion LlC** | **10** |
| **8. Grŵp Llywio'r Asiantaeth** | **10** |
| **9. Systemau Rheoli Ansawdd (QMS) TRMU** | **10** |
| **10. Perfformiad Partner Awdurdodau** | **11** |
| **11. Ymgyngoriaethau PA** | **12** |
| **12 Fframweithiau Sector Preifat** | **12** |
| **13. Gwelliant Parhaus** | **12** |
| **14. Anghydfodau o dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth** | **13** |

**ATODIADAU**

**Atodiad A - Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGCHC**

**Atodiad B - Dadansoddi Data Gwasanaeth Traffig Cymru**

**Atodiad C - Adroddiad Gwasanaeth Swyddogion Traffig**

**Atodiad D - Perfformiad Uned Waith Partner Awdurdod**

**Atodiad E - Adroddiad ar Gynnydd a Pherfformiad Ymgynghoriaeth Partner Awdurdod**

**Atodiad F – Adroddiad ar Statws Contractau Fframwaith ACGCHC**

**Atodiad G - Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor**

## 1 Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y testunau sydd yn perthyn i gylch gorchwyl penodol y Cydbwyllgor. Cyfnod yr adroddiad yw blwyddyn ariannol 2020/21.


## 2 Dyrannu Gwaith i Unedau Darparwyr Gwasanaethau Awdurdodau Lleol

2.1 Parhawyd i ddyrannu gwaith i'r holl Bartner Awdurdodau (PA) ledled holl feysydd gweithredol yr Asiantaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Ymgynghori a Gwaith yn unol â Chytundebau Darparu Gwasanaeth (SDA) ACGCHC. Er i'r mesurau clo ddod i rym yn ystod mis Mawrth 2020, llwyddodd pob PA i gyflawni rhaglen lawn o ddarpariaeth. Mae darpariaeth wedi cael ei gynnal hefyd drwy gydol y cyfnod clo estynedig i 2020/21 yn cynnwys cyfyngiadau haen 4 o Ionawr 2021, gan ddarparu'r rhaglen gynnal a chadw gylchol yn llawn a'r holl gynnal a chadw adweithiol angenrheidiol yn cynnwys cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, sydd yn glod mawr i Ddarparwyr Gwasanaethau PA, ac mae hynny wedi cael ei gydnabod yn llawn gan Weinidogion Cymru.

Mae darpariaeth cyfalaf hefyd wedi parhau drwy Ymgyngoriaethau PA ACGCHC a Fframweithiau Ymgynghoriaeth, Gosod Wyneb a Chontractwyr, gyda rhaglen sylweddol o waith yn cael ei chyflawni yn ystod y cyfnod clo er mwyn manteisio ar y gostyngiad sylweddol mewn traffig, a chynnal hyfywedd cadwyn gyflenwi ACGCHC.


2.2 Mae statws a rhagamcanion ariannol ar gyfer yr holl feysydd gwariant yn cael eu darparu yn y ffigyrau canlynol:

**Ffigwr 1**
**Costau Hawliad Terfynol ACGCHC 2019/20 v 2020/21**




**Ffigwr 2**

**Costau Hawliad Terfynol ACGCHC 2018/19, 2019/20, 2020/21**





| Financial Year | Measured OI Value |
|---|---|
| 2020/2021 | £91.18M |
| 2019/2020 | £74.16M |
| 2018/2019 | £54.59M |

**Gwariant ACGCHC 2020/21 fesul Llwybr**





*Traws Rwydwaith/Arall: yn cynnwys Ynni / Archwilio / Rheoli Asedau / Holl wariant Cat 1*


**Ffigwr 3**
**Costau Cyfun Holl Waith PA - Gwariant ar gyfer 2018/19, 2019/20, 2020/21**





**Ffigwr 4**
**Costau Unedau Gwaith PA ac Eithrio Gaeaf a Ffi - Gwariant ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21**




**Ffigwr 5**
**Gwasanaeth Gaeaf - Gwariant 2018/19, 2019/20 a 2020/21**




**Ffigwr 6**
**Costau Uniongyrchol SCGCC yn ôl Swyddogaeth 2016/17 i 2020/21**



**Ffigwr 7**
**Gwariant Cyfalaf yn ôl Math o Gontractwyr Fframwaith ac Arall (ac eithrio PA) 2016/17 i 2020/21**




| Contract | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Consultancy Framework | £634,950.23 | £995,806.00 | £4,625,984.64 | £3,616,230.46 | £3,775,579.57 |
| Contractor Framework | £9,337,020.56 | £5,082,434.74 | £2,201,447.05 | £4,331,100.31 | £16,884,978.38 |
| Other Contractors and Creditors | £2,471,760.80 | £1,782,406.07 | £1,056,731.42 | £1,245,096.35 | £5,021,156.79 |
| Surfacing Framework | £16,028,888.82 | £7,727,863.61 | £5,907,568.38 | £14,189,122.80 | £15,203,390.35 |
| Technology Framework | | | £134,978.31 | £881,551.10 | £1,538,076.35 |
| Technology Maintenance | | | £816,966.93 | £1,255,360.17 | £1,056,632.54 |
| Traffic Management | | | | £7,687.68 | £1,360.00 |
| Tree Framework | | | | | £3,341.39 |
| **Total** | **£28,472,620.41** | **£15,588,510.42** | **£14,743,676.73** | **£25,526,148.87** | **£43,484,515.37** |

**3. Trefniadau Partneriaeth**

3.1 Mae'r bartneriaeth wedi parhau i weithio’n dda gyda lefelau da o gydweithredu a pherfformiad, yn arbennig o ran bodloni’r heriau a gyflwynwyd gan fesurau clo Covid-19. Llwyddwyd i gyflawni darpariaeth llawn ar gyfer 2020/21. Roedd PA yn gallu addasu i ddeddfwriaeth newydd cysylltiedig â Covid drwy addasu arferion gwaith ac asesiadau risg er mwyn gwarchod eu gweithlu a chynnal y ddarpariaeth.

**3.3 Gweithredu Cytundeb Darparu Gwasanaeth (SDA)**

Mae’r SDA yn parhau i ddarparu’r sail ar gyfer asesu perfformiad PA a chydymffurfiaeth yn erbyn meini prawf perfformio diffiniedig er mwyn gweithredu gofynion WGTRMM. Yn gyffredinol mae PA yn parhau i gydymffurfio’n dda yn y rhan fwyaf o feysydd.

**3.4 Cofrestr Risgiau’r Bartneriaeth**

Mae hon wedi cael ei hadolygu a’i diweddaru er mwyn adnabod risgiau i Bartneriaeth ACGCHC ac er mwyn dangos bod camau parhaus yn cael eu cymryd er mwyn rheoli a lliniaru risgiau pryd bynnag fo hynny yn bosibl. Mae Cofrestr Risg y Bartneriaeth yn cael ei hatodi fel Atodiad A. Mae ACGCHC wedi rhoi nifer o fesurau lliniaru risg ar waith mewn ymateb i Covid 19 yn cynnwys gweithio o gartref ar gyfer y rhan fwyaf o’i staff swyddfa a defnyddio un cerbyd ar gyfer staff gweithredol.

**4. Gwasanaeth Traffig Cymru Llywodraeth Cymru (TWS)**

4.1 Mae Gwasanaeth Traffig Cymru (TW) yn cynnwys Cymru gyfan gan adrodd ar y ddwy ardal Asiant Cefnffyrdd (ACGCHC ac ACDC). Mae TW wedi darparu gwasanaeth cyfathrebu effeithiol iawn yn ystod cyfnod clo Covid-19 gan hysbysu’r cyhoedd am gyfyngiadau teithio a rhoi negeseuon diogelwch.

4.2 Mae data sydd yn dangos perfformiad darparu gwasanaeth yn gynwysedig yn Atodiad B, sydd yn dangos twf parhaus a gwelliant parhaus y gwasanaeth hwn.

**5. Gwasanaeth Swyddogion Traffig (GST) Llywodraeth Cymru**

5.1 Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Traffig yn parhau i ddarparu gwell cydnerthedd i goridorau ffyrdd deuol yr A55/A494 a'r A483 gan ddelio gyda mwy na 10,000 o ddigwyddiadau yn flynyddol. Mae'r lefelau gwasanaeth wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod clo Covid, er y bu prinder staff oherwydd gofynion cysgodi. Mae’r Gwasanaeth wedi parhau i addasu arferion gweithio mewn trefniant gweithredol gweithio gydag unedau dau gerbyd i reoli digwyddiadau wedi/heb eu cynllunio. Mae nifer y digwyddiadau wedi lleihau yn ystod cyfyngiadau Covid sy'n gysylltiedig gyda'r gostyngiad sylweddol ym maint y traffig. Mae maint y traffig bellach wedi cynyddu ar

ôl codi cyfyngiadau a bellach mae'r lefelau digwyddiadau wedi dychwelyd i lefelau blaenorol. Mae'r gwasanaeth ST hefyd wedi cael ei ehangu, drwy gynnal ymgyrch recriwtio o bell ar gyfer penodi pedwar ST ychwanegol, gan roi cyfanswm o dri deg dau. Bydd hyn yn gwella lefelau cyflwyno gwasanaeth, yn lleihau dibyniaeth ar staff ST dros dro allanol ac yn gwella gwytnwch, a thrwy hynny yn rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa gryfach i reoli'r cynnydd disgwyliedig mewn traffig yn ein rhwydwaith o ganlyniad i wyliau gartref.

Ceir crynodeb o ddata perfformiad y gwasanaeth yn Atodiad C.

**6. Cynrychiolydd yr Adran ar Gontract Dylunio Adeiladu Ariannu a Gweithredu (DBFO) A55 Llywodraeth Cymru**

Mae ACGCHC yn parhau i ddarparu’r gwasanaeth hwn i Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio adnoddau staff mewnol. Mae’r contract DBFO rhwng Llywodraeth Cymru a UK Highways Ltd yn gymwys tan mis Rhagfyr 2028. Erbyn hyn mae ACGCHC yn cynorthwyo’r broses gymhleth o drosglwyddo’n ôl y mae angen ei chyflawni cyn diwedd y contract, pryd y bydd y cyfrifoldebau o ran gweithredu a chynnal a chadw yn cael eu hysgwyddo gan LlC a ACGCHC.

**7. Bodloni Gofynion LlC mewn perthynas â’r Cytundeb Asiantaeth**

Yr Uned Reoli Cefnffyrdd (TRMU) sydd yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion LlC, fel y’u nodir yn y Cytundeb Asiantaeth (WGMAA) yn cael eu bodloni. Nid oes unrhyw faterion mewn perthynas â darparu gofynion WGMAA wedi cael eu codi gan LlC yn ystod cyfnod yr adroddiad, a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan LlC a Gweinidogion ynglŷn â’r ffordd y mae ACGCHC a’i bartneriaid yn yr awdurdodau lleol wedi wynebu’r heriau o ganlyniad i Covid 19.

**8. Grŵp Llywio’r Asiantaeth**

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd Grŵp Llywio’r Asiantaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad.

**9. Systemau Rheoli Ansawdd (QMS) TRMU**

9.1 Archwiliwyd cydymffurfiaeth yr Asiant ag ISO 9001 (System Reoli Ansawdd), ISO 14001 (Systemau Rheoli Amgylcheddol) a 45001 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol) gan BSI yn ystod dau archwiliad ar wahân, y cyntaf ym Mehefin a’r ail ym Medi a Hydref 2020. Llwyddodd yr Asiant i gadw ei achrediad mewn perthynas â’r tair safon yma. Yn ystod yr archwiliad, cyfeiriwyd at 10 achos mân o ddiffyg cydymffurfiaeth, oedd yn ychwanegol at y 4 oedd yn dal i fodoli ers archwiliadau blaenorol.

Cytunwyd ar gynllun unioni a gweithredwyd arno er mwyn mynd i’r afael â’r achosion yma o ddiffyg cydymffurfiaeth, a bydd effeithiolrwydd hynny yn cael ei adolygu yn ystod archwiliad nesaf BSI sydd wedi ei amserlennu ar gyfer Medi 2021.

9.2 Ar hyn o bryd mae'r Asiant yn gweithio ar gyflawni achrediad ISO 27001 gyda BSI ar gyfer darpariaeth gwasanaeth Seilwaith TG Traffig Cymru. Cynhaliwyd archwiliad cam un gan BSI yn ystod Mawrth 2021 a bydd archwiliad cam 2 manwl yn cael ei gynnal ym Mai 2021.

## 10. Perfformiad Partner Awdurdodau

### 10.1 Unedau Gwaith PA


Mae perfformiad yn erbyn Diffygion Categori 1 (CAT1), sef y diffygion hynny sydd yn achosi perygl uniongyrchol i'r cyhoedd sydd yn teithio, yn parhau i fod yn destun craffu oherwydd bod hwn yn weithgaredd risg uchel i LlC, ACGCHC a'i PA. Mae hynny yn arbennig o berthnasol i'r cyfnod 24 awr sydd yn ofynnol ar gyfer "Diogelu" y diffyg. Mae'r ystadegau perfformiad yn parhau i ddangos bod targedau perfformiad yn parhau i gael eu cyrraedd yn gyson, ac mae hynny wedi lleihau'r risgiau cysylltiedig i LlC, ACGCHC a PA. Mae adroddiadau perfformiad Unedau Gwaith PA ar gyfer 2020/21 i'w weld yn Atodiad D.

### 10.2 Meincnodi PA

Nid yw adroddiadau meincnodi ar gyfer gwaith cynnal a chadw cylchol rheolaidd wedi cael ei gwblhau ar gyfer 2020/2021 oherwydd ein bod yn disgwyl am yr adolygiad terfynol. Pan fydd y data ar gael byddwn yn cyhoeddi adendwm i'r adroddiad. Er gwybodaeth, dangosir crynodeb o'r meincnodi blaenorol isod.

Mae darlun o gostau cynnal a chadw cylchol, wedi ei addasu arfer chwyddiant, at gael yn Ffigwr 7.

**Ffigwr 7**
**Meincnodi Gwaith Cynnal a Chadw Cylchol**




Noder bod y costau wedi cael eu haddasu o un flwyddyn i'r llall ar gyfer chwyddiant yn unol â mynegeion BCIS.

**11. Ymgyngoriaethau PA**

11.1 Mae adroddiadau cynnydd a pherfformiad ymgyngoriaethau ar gyfer 2020/21 yn gynwysedig yn **Atodiad E**.

**12. Fframweithiau Sector Preifat**

12.1 Mae contractau fframwaith ACGCHC yn parhau i weithio'n dda, ac mae contractwyr ac ymgynghorwyr yn perfformio'n dda. Mae adroddiad crynodol sydd yn amlinellu statws fframweithiau ACGCHC yn gynwysedig yn Atodiad F.

**13. Gwelliant Parhaus**

13.1 Mae nifer o fentrau gwelliant parhaus wedi mynd rhagddynt yn ystod cyfnod yr adroddiad, yn cynnwys:

13.2 Cynllun a rhaglen datblygu a hyfforddi staff gynhwysfawr. Mae hynny yn cynnwys hyfforddiant proffesiynol yn ogystal â datblygu personol a thîm e.e. "Proffilio DiSC" a "5 Ymddygiad Tîm Cydlynol". Mae hynny yn tanategu'r broses o gyflwyno'r modiwl hyfforddiant MODS sydd erbyn hyn yn cael ei ddefnyddio i reoli'r broses o ddatblygu a hyfforddi staff ACGCHC.

13.3 Penodi dau swyddog HSE er mwyn cefnogir Rheolwr HSE a chreu tîm HSE, sydd yn fwy addas i'r diben ar gyfer rheoli'r risgiau HSE rheoleiddiol sydd yn gysylltiedig â gweithgareddau'r asiantaeth a'i chadwyn gyflenwi.

13.4 Mae mentrau lleihau carbon yn mynd rhagddynt e.e. gosod paneli solar yn y depo newydd ar Ffordd Ddole yn Llandrindod. Ar ôl ei gwblhau, y depo yma fydd ein prif swyddfa ardal ar gyfer canolbarth Cymru. Mae safleoedd eraill hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer gosod paneli solar. Mae ACGCHC hefyd wedi treialu cerbydau trydan ar y rhwydwaith, oedd yn cynnwys defnyddio dwy fan fach i gefnogi'r uned twneli a thechnoleg ar gyfer gwaith ar dwneli yr A55. Mae'r treial wedi bod yn llwyddiannus, ac o ganlyniad i hynny mae pwyntiau gwefru EV wedi cael eu gosod mewn safleoedd strategol.

13.5 Fel rhan o strategaeth cynllunio olyniaeth ACGCHC, rydym yn y broses o recriwtio 4 prentis ar gyfer y swyddogaethau canlynol; Diogelwch Seiber (2); Busnes (1) a Pheirianneg Sifil (2). Rhagwelir y bydd y rolau yma yn weithredol erbyn mis Medi.

13.6 Datblygu tîm dadansoddi data yn ACGCHC er mwyn cefnogi'r asiantaeth gyda phenderfyniadau a darparu gwell adroddiadau a mewnwelediad i ddata. Mae gan y tîm ddau ddadansoddwr data sydd hefyd yn gweithio'n agos â thîm TGCh ACGCHC, sydd wedi darparu'r seilwaith cwmwl angenrheidiol ar gyfer rhannu data ledled y partner awdurdodau, yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae ACGCHC yn

gwneud defnydd helaeth o Microsoft Power BI er mwyn cynhyrchu gwell adroddiadau sydd yn gysylltiedig â defnydd sylweddol o ddadansoddeg data. Defnyddiwyd yr adroddiadau yma mewn perthynas â newid yn lefel y traffig yn ystod pandemig Covid 19 er mwyn hysbysu penderfyniadau ar lefel genedlaethol. Mae hynny wedi cael derbyniad da gan Gymdeithas y Prif Gwnstabliaid.

13.7 Mae ACGCHC wedi gwella dulliau ymgysylltu â chyfathrebu â'r cyhoedd drwy TW sydd wedi arwain at fuddion sylweddol wrth wneud gwaith mawr ar y rhwydwaith a llai o gwynion a sylw mwy cadarnhaol yn y wasg.

13.8 Mewn ymateb i gyfyngiadau Covid, mae ACGCHC wedi cofleidio arferion gweithio newydd, sydd yn debygol o arwain at fuddion yn yr hirdymor o ganlyniad i lai o deithio sydd yn gysylltiedig â gweithio o gartref a llai o deithio rhwng swyddfeydd. Mae hynny wedi lleihau'r defnydd o danwydd ac wedi darparu buddion amgylcheddol.

13.9 Mae 4 Swyddog Amgylcheddol (EO) newydd wedi cael eu hychwanegu i'r Tîm Amgylcheddol yr hydref diwethaf ar ôl cyflwyno achos busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnal a threfnu arolygon, ac archwiliadau ecolegol, yn rhestru ac yn cynorthwyo gydag arolygon Clefyd Coed Ynn a gwelliannau i'r ystâd feddal, megis plannu coed ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae hynny yn helpu i gefnogi'r gofynion cynnal a chadw, gwella a gwytnwch o dan Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 14. Anghydfodau o dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth

14.1 Mae Cymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth yn nodi proses esgoli ar gyfer datrys anghydfodau allai godi rhwng TRMU a PA. Gellir cyfeirio anghydfodau o'r fath i'r Cydbwyllgor am benderfyniad os na chânt eu datrys.

14.2 Ar hyn o bryd nid oes yna unrhyw faterion sydd wedi cael eu hesgoli o dan y broses hon am benderfyniad gan y Cydbwyllgor.

# ATODIAD A

# Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGCHC

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg ar ôl lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Methu â bodoli gofynion darparu gwasanaeth LlC. | 4 | 4 | 16 | **1.** Yn ddibynnol ar natur a maint y methiant, camau posibl gan LlC yw:-<br>a) Asiantaeth i roi cynllun gweithredu unioni ar waith<br>b) Newid darparwr gwasanaeth ar gyfer meysydd gwasanaeth sy'n tanberfformio<br>c) Diddymu'r Asiantaeth | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Cynnal perfformiad yn unol â lefelau targed gofynnol LlC. | **1.** Monitro perfformiad yn rheolaidd gan TRMU a LlC.<br>**2.** Asiantaeth/Grŵp Llywio LlC yn enwi ac yn mynd i'r afael â phroblemau posibl.<br>**3.** Cynnal cydymffurfiaeth â Systemau Rheoli Ansawdd.<br>**4.** Rôl graffu'r Cydbwyllgor.<br>**5.** Gweithredu cyfundrefn archwilio.<br>**6.** SOR Adolygedig yn cael ei weithredu a'i gadarnhau fel y model caffael a ffafrir gan LlC.<br>**7.** Meincnodi PA cydnerth yn fewnol ac yn y sector preifat.<br>**8.** Comisiynu ffi benodol yn cael ei weithredu ar gyfer gwasanaethau ymgynghori gyda phrofion marchnad priodol.<br>**9.** Perfformiad boddhaol yn cael ei gadarnhau gan archwilwyr allanol LlC.<br>**10.** Gweithredu SDA 2016 yn gwella eglurder ynghylch gofynion. Adrodd yn rheolaidd yng Nghyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaethau yn erbyn meini prawf perfformiad SDA. Mynd i'r afael â materion a enwyd.<br>**12.** Datblygu dangosfwrdd perfformiad ac adroddiadau perfformiad misol.<br>**13.** System Ddatblygu Busnes ACGCHC erbyn hyn wedi aeddfedu ac yn cael ei defnyddio yn rhagweithiol i reoli datblygu busnes a gwelliant parhaus.<br>**14.** Prosesau a systemau gwell o reoli risg yn cael eu rhoi ar waith. | 1 | 3 | 3 |
| 2 | Methu â bodoli gofynion darparu rheoli ariannol LlC. | 4 | 4 | 16 | **1.** Methu â bodloni gofynion cyllidol LlC<br>2. Niwed sylweddol o bosibl i enw da yr Asiantaeth a PA, allai fygwth dyfodol yr Asiantaeth.<br>**3.** Methu ag optimeiddio cyllidebau<br>4. Effaith niweidiol ar lif arian PA<br>5. Llai o gyfle am gyllid yn ystod y flwyddyn gan LlC oherwydd y canfyddiad o danwariant yn y gyllideb bresennol. | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Cynnal perfformiad yn unol â lefelau targed gofynnol LlC.<br>**2.** Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o Docynnau Gwaith a gwella cyflawniadau er mwyn cyrraedd targed o 80% o fewn 10 diwrnod | **1.** Sefydlu system Cyfrifo Ymrwymiadau gan TRMU<br>2. SOR newydd ar waith wedi ei chyfuno ag anfonebu misol.<br>**3.** Mechnïwr costau yn y Rhestr Gostau a briffiau wedi eu costio.<br>**4.** Gweithredu cyfundrefn archwilio.<br>**5.** Comisiynu ffi benodol yn weithredol am wasanaethau ymgynghori gyda thâl am gyrraedd cerrig milltir.<br>**6.** SDA Gweinyddu Technegol adolygedig ar waith. Codi mater ôl-groniad Tocynnau Gwaith gyda Phenaethiaid Gwasanaethau PA.<br>**8.** Lefelau cwblhau tocynnau gwaith wedi gwella'n sylweddol.<br>**9.** Dangosfwrdd perfformiad a Power BI yn cael eu defnyddio i fonitro ac i adrodd yn erbyn perfformiad darparu gwasanaeth | 1 | 4 | 4 |
| 3 | Diddymu'r Asiantaeth gan LlC o ganlyniad i benderfyniad gwleidyddol. | 3 | 5 | 15 | **1.** Diddymu Partneriaeth.<br>**2.** Colli incwm sylweddol o bosibl.<br>**3.** Goblygiadau staffio sylweddol o bosibl.<br>**4.** Colled sylweddol i'r economi leol o bosibl. | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Cynnal perfformiad ac enw da darpariaeth yr Asiantaeth a PA.<br>**2.** Gwelliant parhaus er mwyn dangos gwerth am arian.<br>**3.** Harmoneiddio Rhestr Gostau a phrosesau darparu.<br>**4.** Mabwysiadu dulliau | **1.** Adolygiad mawr LlC wedi ei gwblhau...<br>2. Cyflwyniad Ebrill 2015 ac achosion busnes ACGCHC wedi eu derbyn gan LlC.<br>**3.** Newid Model Asiantaeth allweddol ac Achosion Busnes wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Ebrill 2016. Arbedion effeithiolrwydd eilaidd yn gysylltiedig â Newid Model yn cael eu gwireddu erbyn hyn.<br>**5.** Arbedion cost yn cael eu hasesu yn erbyn costau | 1 | 5 | 5 |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd. | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd. | Effaith | Sgôr risg ar ôl lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | arferion gorau o weithio er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithrediadau.<br>**5.** Cyflwyno achosion busnes lleihau costau Ebrill ACGCHC.<br>**6.** Cyflwyno arbedion costau targed estynedig LlC.<br>**7.** Tystiolaethu am ac adrodd ar arbedion cost i Archwilwyr LlC - yn ddibynnol ar benderfyniad LlC. | alldro 2016/17 yn dangos bod arbedion targed wedi cael eu cyflawni yn ddibynnol ar archwiliad LlC.<br>**6.** Arbedion cost terfynol 2017/18 wedi eu cyflawni a'r adroddiad wedi ei chyflwyno gan yr Asiantaethau ar gyfer Cyngor Gweinidogol | | | |
| 4 | Un PA yn tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth | 2 | 3 | **6** | Bygythiad i ddarpariaeth gwasanaeth ar y rhwydwaith Cefnffyrdd yn y sir dan sylw. | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Byddai angen Cytundeb Partneriaeth diwygiedig.<br>**2.** Byddai angen adolygu maint y gwasanaeth a ddarperir gan y PA sydd yn gadael.<br>**3.** Byddai angen adleoli gwaith i PA eraill neu gadwyn gyflenwi'r Sector Preifat.<br>**4.** Byddai angen i TRMU gynnal dilyniant gwasanaeth.<br>5. Mynd i'r afael ag ymadawiad rhannol Sir Ddinbych | **1.** Mae Cymal 12 y Cytundeb Partneriaeth yn delio â hyn - gelir cytuno ar Gytundeb Partneriaeth diwygiedig gyda gweddill yr Awdurdodau.<br>**2.** Mae Cymal 6 y Cytundeb Partneriaeth yn delio â gweithio trawsffiniol.<br>**3.** Trefniadau cyflenwi y Sector Preifat wedi eu sefydlu drwy Fframweithiau os bydd angen.<br>**4.** Adleoli rhwydwaith CSDd yn llwyddiannus drwy gytundeb â Phartneriaid. | 2 | 3 | **6** |
| 5 | Anghydfod sylweddol rhwng y Awdurdod Arwain a Phartneriaid. | 2 | 2 | **4** | Bygythiadau i ddarparu gwasanaeth | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Dilyn y broses esgoli | **1.** Mae Cymal 9 y Cytundeb Partneriaeth yn diffinio'r broses esgoli. | 1 | 2 | **2** |
| 6 | Gofynion Llywodraeth Leol ar gyfer partneriaethau/cydweithredu rhanbarthol llywodraeth leol. | 4 | 4 | **16** | **1.** Gall newid posibl i strwythur a maint y gadwyn gyflenwi a phrosesau newid cysylltiedig effeithio ar ddarparu gwasanaeth i'r dyfodol. Effaith bosibl ar ddilyniant busnes | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Monitro cynigion gyda Phartner Awdurdodau | 1 Mae'r model ACGCHC diwygiedig yn gydnaws â threfniadau rhanbarthol. | 4 | 2 | **8** |
| 7 | Cydymffurfio â Threfniadau Darparu Gwasanaeth | 4 | 4 | **16** | **1.** Risgiau o ganlyniad i ymchwiliad i Farwolaethau Ffyrdd yr Heddlu/HSE ar ôl damwain angheuol.<br>**2.** Risg o erlyniad amgylcheddol.<br>**3.** Risg i enw da LlC, ACGCHC a PA.<br>**4.** Diffyg cydymffurfiaeth â SDA. | Arweinwyr a Phartneriaid | **1.** Sefydlu systemau rheoli ansawdd achrededig ar gyfer ISO9001, ISO14001, OHSAS18001 ac achrediadau Cynlluniau'r Sector perthnasol. | **1.** Pob PA yn cydymffurfio'n llawn.<br>2. ACGCHC yn darparu cymorth drwy'r gweithgor a Rheolwr Iechyd a Diogelwch ACGCHC<br>3. Gweler 2P uchod.<br>**4.** Pob PA yn cydymffurfio â'r systemau QMS achredig sydd wedi eu sefydlu<br>**5.** Defnyddio dangosfwrdd perfformiad. | 1 | 4 | **4** |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd. | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd. | Effaith | Sgôr risg ar ôl lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Cynllunio dilyniant adnoddau staff ACGCHC a PA. | 3 | 4 | 12 | Anhawster cynyddol o ran recriwtio a chadw staff proffesiynol a thechnegol addas a gweithredwyr sgiliedig. | Arweinwyr a Phartneriaid | Sefydlu swyddi dan hyfforddiant a phrentisiaethau yn y strwythur staffio er mwyn cynhyrchu adnoddau staffio i'r dyfodol. Gwella prosesau recriwtio | 1. Mae ACGCHC wedi dechrau cynllun prentisiaeth ledled yr holl feysydd darparu gwasanaeth. Erbyn hyn rydym yn recriwtio i swyddi technegwyr dan hyfforddiant gyda chefnogaeth ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant galwedigaethol.<br>2. Prosesau recriwtio erbyn hyn yn defnyddio gwasanaethau ar y we (LinkedIn a gwefannau swyddi). | 3 | 3 | 9 |
| 9 | Cynnal Arbedion Cost Gweinidogol | 3 | 4 | 12 | Bygythiad i fodel darparu y sector cyhoeddus os na ellir dangos gwerth am arian parhaus | Arweinwyr a Phartneriaid | Cynnal lefel briodol o reoli costau drwy fecanwaith talu Rhestr Costau. Meincnodi meysydd swyddogaethol allweddol yn barhaus er mwyn enwi arferion gorau a chyfleoedd i wella effeithiolrwydd | 1. Adolygiad SOR i'w gwblhau er mwyn lliflinio a gwella defnyddioldeb<br>2. Ymarferiad diweddaru meincnodi yn cael ei gynnal<br>3. Cyfarfodydd rheolaidd gyda staff gweithredol a staff uwch PA er mwyn mynd i'r afael â materion ynghylch darparu, perfformiad a rheoli costau.<br>4. Gofynion LlC ychwanegol a chostau cysylltiedig wedi eu gwahanu oddi wrth waelodlin arbedion cost | 3 | 3 | 9 |

# ATODIAD B

# Dadansoddi Data Gwasanaeth Traffig Cymru 2020/21







## Uchafbwyntiau Cyfathrebu Traffig Cymru

**Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Traffig Cymru wedi gweithredu ymgyrchoedd deniadol i hyrwyddo diogelwch, prosiectau ffyrdd ac ymwybyddiaeth brand. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi darparu llif cyson o ddiweddariadau teithio, wedi annog gyrru mwy diogel a mwy cynaliadwy ac wedi dangos sut mae'r Asiantau Cefnffyrdd yn darparu rhwydwaith diogel a defnyddiol ledled Cymru.**

Yn ystod yr amser hwn bu cynnydd o 30% mewn atgyfeiriadau uniongyrchol o gyhoeddiadau newyddion ac yn gyffredinol, roedd y sylw hwn yn fwy ffeithiol nag dros y blynyddoedd blaenorol.

### Gwelliannau i Gyffordd 19 Glan Conwy

Yn ystod y cynllun hwn ym mis Mehefin 2020 defnyddiodd Traffig Cymru data traffig i ddylanwadu ymddygiad gyrwyr i'w galluogi i wneud defnydd mwy diogel, mwy cysylltiedig a doethach o'r rhwydwaith cefnffyrdd.


Roedd rhannu sganiau tagfeydd a lefelau traffig mewn lleoliadau strategol allweddol yn creu copaon mwy cynaliadwy yn amseroedd teithio ac yn eu lleihau o ddeg munud ar gyfartaledd.

Yn dilyn adnewyddiad llwyddiannus cymalau ehangu traphont Glan Conwy yn gynharach eleni, bydd Traffig Cymru yn rhannu fideo hon yn hyrwyddo'r gwaith.

Diweddariad C19
O ddydd Gwener diwethaf mae mesurau rheoli traffig newydd wedi'u rhoi yn eu le.

Mae buddion y trefniant newydd wedi gweld gostyngiad mewn amseroedd teithio a wedi lleihau thagfeydd ar yr oriau brig ar yr #A470 tua'r gogledd.

Mae busnesau lleol wedi aros ar agor.
Translate Tweet





https://youtu.be/xZ8qaTH9OrE



## Gwaith Ail-wynebu A55 Ewlo

Cafodd ffeithluniau prosiect eu creu i arddangos ffeithiau diddorol am y gwaith ffordd. Tyfodd ymgysylltiad dros gyfryngau cymdeithasol o 93% a chynyddodd straeon newyddion cadarnhaol am y gwaith:




[The Leader: Resurfacing work on stretch of A55 in Flintshire that carries 20,000 vehicles perday is essential]

[Deeside.com: Four weeks of essential resurfacing work on A55 in Flintshire gets underwaythis weekend]

[BBC: Extremely low' A55 traffic sees roadworks start early]

## Adnewyddu Cymalau Ehangu Traphont Ceiriog



Cwblhawyd adnewyddiad y cymalau ar draphont Afon Ceiriog ar yr A5 ddeuddydd yn gynt na'r disgwyl. Gweithiodd y contractwr 24/7 i amserlen dynn i sicrhau bod y gwaith yn cael ei orffen cyn gynted â phosibl.

## Ymateb i'r pandemig




Mae Traffig Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda fforymau cydnerthu lleol, y llywodraeth a'r heddlu isicrhau bod negeseuon yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau diweddaraf. Mae cynlluniau cyfathrebu wedi'u targedu ac ymgyrchoedd VMS wedi'u creu i fynd i'r afael â heriau penodol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.


https://traffig.cymru/gwybodaeth-i- ddefnyddwyr-y-ffordd-yn-ystod-y-pandemig

@TrafficWales - N+S


33620 Hoffi
8202 Crybwyll
3166 Dilynwyr Newydd
3513 Ymatebion
15105 Ail-drydar

Traffig Cymru Traffic Wales


Nifer o Ddilynwyr





Hoffi





Crybwyll





Dilynwyr Newydd




Ymatebion




Ail-drydar




## @TraffigCymru - G + D


Traffig Cymru Traffic Wales

| | | |
|---|---|---|
| 2711 Hoffi | 446 Crybwyll | 147 Dilynwyr Newydd |
| 353 Ymatebion | 1648 Ail-drydar | |


### Nifer o Ddilynwyr





### Hoffi





### Crybwyll





### Dilynwyr Newydd




### Ymatebion




### Ail-drydar



# Atodiad C:

# Adroddiad Gwasanaeth Swyddogion Traffig


## Uned Gweithrediadau (Gwasanaeth Swyddogion Traffig ac Ystafell Reoli)

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mabwysiadodd Uned Gweithredu'r Asiant arferion gwaith diwygiedig, gan symud o unedau un cerbyd sengl, efo dau arni, i unedau dau gerbyd, efo un person arnynt. Cafodd staff yr Ystafell Reoli eu lleihau i'r isafswm gofyniad o ddau Weithredwr a Rheolwyr y Tîm Gweithredu yn gweithio o bell drwy ddefnyddio desgiau ystafell reoli rithiol yng Nghanolfan Rheoli Traffig Gogledd Cymru.

Trwy fabwysiadu'r arferion gwaith yma llwyddodd yr Uned Gweithrediadau i gefnogi a pharhau i gyflawni Rhwydwaith Cefnffyrdd diogel a dibynadwy trwy gydol cyfyngiadau Covid-19.


## Cymharu Data (Cyfnodau Amrywiol)

Mae siart 1 '*Cyfanswm Cerbydau mewn Miliwn fesul Mis, Ebr 2020 - Maw 2021'* yn dangos yr effaith a gafodd cyfnodau clo a chyfyngiadau'r llywodraeth ar deithio ar gyfer dibenion hanfodol yn unig ar siwrneiau a wnaed ar draws coridorau Ffyrdd Deuol yr A55/A494/A483. Bu cynnydd sylweddol yn y siwrneiau a wnaed yn dilyn llacio cyfyngiadau teithio yng Nghymru ers 27 Mawrth 2021, gyda nifer cyfartal o siwrneiau yn cael eu cofnodi ym mis Mawrth 2021 a mis Awst 2020.





Siart 1*: Cyfanswm Cerbydau mewn Miliwn fesul Mis, Ebr 2020 - Maw 2021.*

Cafodd y gostyngiad mewn siwrneiau effaith gyfatebol ar gyfanswm y digwyddiadau a gafodd eu rheoli gan y Gwasanaeth, fel y dengys yn Siart 2 '*Cymharu Cyfanswm nifer yr Holl Ddigwyddiadau a Gofnodwyd, 1 Ionawr - 30 Mehefin 2019 a 2020'*.




Siart 2: *'Cymharu Cyfanswm nifer yr Holl Ddigwyddiadau a Gofnodwyd, 1 Ionawr - 30 Mehefin 2019 a 2020'*


Fodd bynnag, mae'r llacio a weithredwyd ers 27 Mawrth 2021 yn dangos fod lefelau'r Gwasanaeth bellach gyfwerth â lefelau cyn y pandemig (Siart 3 '*Cymharu Cyfanswm nifer yr Holl Ddigwyddiadau a Gofnodwyd ym mis Ebrill 2019/2020/2021')*




Siart 3: *'Cymharu Cyfanswm nifer yr Holl Ddigwyddiadau a Gofnodwyd ym mis Ebrill 2019/2020/2021'*

Ers mis Ebrill 2020, trosglwyddwyd swyddogaeth Patrôl Diogelwch ar Ffyrdd Deuol yr A55/A494/A483 i'r Tîm Archwiliadau. Mae hyn gyfystyr â 124 digwyddiad ychwanegol, sy'n rhoi cyfanswm cymharol o 1,281 digwyddiad yn 2021, i 1,250 digwyddiad yn 2019. Mae hyn yn ddiddorol o ystyried y trefniadau gweithio gartref presennol sydd o bosib yn golygu nifer sylweddol llai o siwrneiau, yn ogystal â lleihad mewn traffig cludo nwyddau yn defnyddio


Porthladd Caergybi ar ôl i'r DU adael yr UE (31 Ionawr 2021). Gallai hyn ddangos cyfansoddiad gwahanol o bwrpas siwrnai, a allai gael ei amlygu yn nata Siart 4 '*Digwyddiad yn ôl Math'* , sy'n dangos cynnydd sylweddol yn nifer y cerbydau sy'n torri i lawr a gofnodwyd ym mis Ebrill 2020 yn erbyn mis Ebrill 2021.




Siart 4: '*Digwyddiad yn ôl Math'*


Yn anffodus, bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau 'Person Bregus' a gofnodwyd (Siart 4 'Digwyddiad yn ôl Math'), gyda chyfanswm o ddeg ym mis Ebrill 2021, o'i gymharu â sero ym mis Ebrill 2020. Defnyddiwyd y wybodaeth hon ar gyfer gwella'r rhwydwaith a gwella'r Gweithdrefnau Gweithredu ar gyfer atal a rheoli digwyddiadau o'r fath.

Drwy gydol hyn, mae'r Gwasanaeth wedi addasu trefniadau gweithredol yn ystod Covid-19 a pharhau i wneud yn well na DPA LlC i Gerbyd a Anfonir gyrraedd mewn ugain munud (Siart 5 'Cyfartaledd Amser i Gerbyd a Anfonir Gyrraedd, Blwyddyn Ariannol 2020/21'), sef cyfartaledd o ddeg munud, tair eiliad.



Siart 5: *Cyfartaledd Amser i Gerbyd a Anfonir Gyrraedd, Blwyddyn Ariannol 2021/21*

Ymhellach, yn ystod yr amser hwn mae'r Gwasanaeth wedi datrys digwyddiadau mewn tua thri deg dau funud ar gyfartaledd (Siart 6 'Amser Digwyddiad ar Gyfartaledd'), sy'n golygu bod argaeledd y rhwydwaith yn cael ei gynnal ar gyfer ein gwasanaethau brys, gweithwyr allweddol ac, yn fwy diweddar, traffig gwyliau.





Siart 6: *Amser Digwyddiad ar Gyfartaledd, Blwyddyn Ariannol 2020/21*


# ATODIAD D


# ACGCHC 2020/21
# Perfformiad Partner Awdurdodau

## D1- Perfformiad Gwaith Partner Awdurdodau




| Target | % |
|---|---|
| 24 Hour Temporary / Make Safe Actions | 100% |
| 24 Hour Holding / Permanent Actions | 100% |
| 7 Day Permanent Actions | 95% |
| 28 Day Holding / Permanent Actions | 95% |




2020/21 - Cau Cyfarwyddiadau Gwaith
- Canran wedi'u cau
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
98%
93%
Cat 1s
Gweithiau eraill
2020-21

# ATODIAD E

# Ymgynghoriaeth Partner Awdurdodau– Adroddiad Cynnydd a Pherfformiad


# E1 Adolygiad o Brosiect Darparu Cyfalaf


## E1.1 2020/21 FY

Comisiynodd ACGCHC 366 o brosiectau i Bartner Awdurdodau ac Ymgynghorwyr Allanol yn 2020/21, gyda gwerth cyfun o £9,414,752.40; wedi ei rannu fel a ganlyn:

| Consultant Name | No. of Commissions | Project Total |
|---|---|---|
| Atkins | 7 | 228,031.83 |
| Ceredigion | 20 | 175,924.92 |
| Conwy | 17 | 152,754.80 |
| Denbighshire | 17 | 206,062.26 |
| Mott MacDonald | 50 | 2,070,382.60 |
| Powys | 93 | 1,568,989.57 |
| WSP | 16 | 1,452,817.79 |
| YGC | 146 | 3,559,788.63 |
| **Total** | **366** | **9,414,752.40** |

***Ffigwr E1.1:*** *Tabl yn dangos cyfanswm y comisiynau i PA ac Ymgynghorwyr Allanol yn 2020/21.*
***Noder:*** *Mae cyfanswm prosiectau YGC ar gyfer 2020/21 yn cynnwys £659k, sydd yn gysylltiedig â phrosiectau mawr Llywodraeth Cymru (IDD) sydd yn cynnwys cynllun Gwella A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.*



## E2 Statws Cost y Prosiect


### E2.1 2020/21 FY

Mae cost prosiectau crynodol ar gyfer 2020/21 yn ei gyfanrwydd yn cynnwys ffioedd ymgynghori a chostau trydydd partïon allanol cysylltiedig â phob comisiwn. Gellir gweld y rhaniad rhwng costau mewnol ac allanol yn y dadansoddiad isod:

| Consultant Name | Activity Total | Expenses Total | Additional Payments Total | Overall Total |
|---|---|---|---|---|
| Atkins | 228,031.83 | 0.00 | 0.00 | 228,031.83 |
| Ceredigion | 96,158.52 | 79,766.40 | 0.00 | 175,924.92 |
| Conwy | 116,305.65 | 33,235.28 | 3,213.87 | 152,754.80 |
| Denbighshire | 113,417.82 | 92,644.44 | 0.00 | 206,062.26 |
| Mott MacDonald | 1,943,796.72 | 178,099.27 | -51,513.39 | 2,070,382.60 |
| Powys | 1,290,407.78 | 278,581.79 | 0.00 | 1,568,989.57 |
| WSP | 1,132,539.76 | 255,964.68 | 64,313.35 | 1,452,817.79 |
| YGC | 2,337,406.72 | 1,219,134.50 | 3,247.41 | 3,559,788.63 |
| **Total** | **7,258,064.80** | **2,137,426.36** | **19,261.24** | **9,414,752.40** |

***Ffigwr E2.1:*** *Tabl yn dangos dadansoddiad o gostau prosiect ar gyfer 2020/21.*

***Noder:*** *Mae cyfanswm prosiectau YGC ar gyfer 2020/21 yn cynnwys £659k, sydd yn gysylltiedig â phrosiectau mawr Llywodraeth Cymru (IDD) sydd yn cynnwys cynllun Gwella A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.*



## E3 Cyfleoedd Tendro

### E3.1 2020/21 FY: Profi'r Farchnad


Dyfarnodd ACGCHC 16 o Gomisiynau i'r tendrau mwyaf economaidd fanteisiol yn dilyn ymarferiad profi'r farchnad yn 2020/21, ac mae manylion am hynny yn cael eu dangos yn y dadansoddiad isod. Mae hynny yn golygu bod 4.5% o'r comisiynau wedi bod yn destun profi'r farchnad yn 2020/21 o blith y 366 o gomisiynau a ddyfarnwyd.

Mae'r cyfleoedd profi'r farchnad yn 2020/21 wedi lleihau oherwydd y nifer uchel o brosiectau oedd yn cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol (2019/20). Effeithiwyd fwy ar hynny gan ymateb Llywodraeth Cymru ac ACGCHC i bandemig Covid-19, oedd yn cynnwys rhyddhau briffiau prosiectau yn gynnar er mwyn cynnal llif gwaith ac i gefnogi ein cadwyn gyflenwi o Ymgynghorwyr a Chontractwyr.

Roedd comisiynau profi'r farchnad ar gyfer amrywiaeth o brosiectau amlddisgyblaethol oedd â chost amcangyfrifiedig o lai na £50k, ac fe'u profwyd rhwng PA ACGCHC (ar gyfer gwaith yn eu hardaloedd daearyddol) a'r Ymgynghorydd a ffafrir gan ACGCHC ar gyfer Lot 1 neu Lot 2a Fframwaith Ymgynghori ACGCHC.

| Project Title | Awarded | Unsuccesful | % Variance | Information |
|---|---|---|---|---|
| A470 Black Cat Roundabout & Black Cat Roundabout Link CIP Cluster site study | Conwy | Mott MacDonald | 15.34 | |
| A470 Llanrwst to Betws-y-coed (NWTRA_005B) - Signing and Road Markings | Conwy | Mott MacDonald | 10.25 | |
| Glan Conwy (development) | Conwy | Mott MacDonald | 100.00 | Declined |
| A5 West of Llangollen (NWA5_006A & NWA5_006OPT2) Speed Limit Reduction | Denbighshire | Mott MacDonald | 36.37 | |
| A5 Swallow Falls Safety Measures NWA5-21D | Mott MacDonald | Conwy | 37.26 | |
| Britannia Bridge study | Mott MacDonald | YGC | 100.00 | Declined |
| Bwlch Speed Management and Footway Widening | Mott MacDonald | Powys | 100.00 | Declined |
| A483 Fron (MWTRA_A483_24) Pedestrian improvements | Powys | Mott MacDonald | 6.01 | |
| A487 - Relocation of Urdd direction signs | Powys | Mott MacDonald | 49.57 | |
| Newbridge on Wye Pedestrian Crossing Review | Powys | Mott MacDonald | 100.00 | Declined |
| A470 Chapel House farm Improvement | YGC | Mott MacDonald | 3.87 | |
| A483 J5 to J6 layby study | YGC | Mott MacDonald | 28.97 | |
| NMWTRA Funding Package for Minor Traffic Eng improvements | YGC | Mott MacDonald | 100.00 | Declined |
| Replacement DVSA Testing Centre | YGC | Mott MacDonald | 3.65 | |
| Speed Indicator Device Programme - Various Sites | YGC | Mott MacDonald | 100.00 | Declined |
| Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth (NWA487-21B) | YGC | Mott MacDonald | 2.76 | |

***Ffigwr E3.1**: Tabl yn dangos canlyniadau profi'r farchnad ar gyfer 2020/21, mae'r "% amrywiad" yn seiliedig ar y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y tendrau llwyddiannus ac aflwyddiannus.*




## E3.2 2020/21 FY: Mân-Gystadleuaeth

Dyfarnodd ACGCHC 11 o Gomisiynau i'r tendrau mwyaf economaidd fanteisiol yn dilyn ymarferiad mân-gystadleuaeth, ac mae manylion am hynny yn cael eu dangos yn y dadansoddiad isod. Mae hynny yn golygu bod 3% o'r comisiynau wedi bod yn destun mân-gystadleuaeth o blith y 366 o gomisiynau a ddyfarnwyd 2020/ 21.

Roedd y mân-gystadleuaeth ar gyfer amrywiaeth o brosiectau amlddisgyblaethol oedd â chost amcangyfrifiedig o dros £50k, gafodd eu tendro drwy Fframwaith Ymgynghori ACGCHC ar gyfer Lot 2B neu 3, ac ar bedwar achlysur estynnwyd y cyfle i dendro i ymgyngoriaethau PA.

| Project Title | Lot | Awarded | Unsuccesful 1 | Unsuccesful 1 - % Variance | Unsuccesful Tender 1 Information | Unsuccesful 2 | Unsuccesful 2 - % Variance | Unsuccesful Tender 2 Information | Unsuccesful 3 | Unsuccesful 3 - % Variance | Unsuccesful Tender 3 Information | Unsuccesful 4 | Unsuccesful 4 - % Variance | Unsuccesful Tender 4 Information |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A44 Llangurig to Aberystwyth – WelTAG Stage 1 | L2b | WSP | Atkins | 100.00 | Declined | Mott MacDonald | 22.87 | | | | | | | |
| A494\|A55 – Development of Options S73 to S76 and S77b – Diversion Routes | L2b | WSP | YGC | 100.00 | Declined | Atkins | 100.00 | Declined | Mott MacDonald | 100.00 | Declined | | | |
| A5/A483 High Wind Narrative document | L2b | Atkins | Mott MacDonald | 100.00 | Declined | WSP | 18.95 | | | | | | | |
| A55 and A494 Resilience Study | L3 | Atkins | AECOM | 100.00 | Declined | Mott MacDonald | 22.34 | | WSP | 10.41 | | | | |
| A55 Llanddulas to Abergele E/B J23 to J24 | L3 | Mott MacDonald | YGC | 100.00 | Declined | Atkins | 100.00 | | AECOM | 53.76 | | WSP | 5.36 | |
| A55 Penmaenbach Headland Tunnel Fire Risk Assessment | L2b | WSP | Atkins | 100.00 | Declined | Mott MacDonald | 100.00 | Declined | | | | | | |
| Bilingual Working Drawings Update (Traffic Signs Regulations And General Directions 2016) | L2b | WSP | Atkins | 100.00 | Declined | Mott MacDonald | 11.27 | | YGC | 22.40 | | | | |
| Mid Wales Resurfacing in Towns | L3 | Atkins | Powys | 100.00 | Declined | AECOM | 2.96 | | Mott MacDonald | 100.00 | Declined | WSP | 21.81 | |
| Operational and Maintenance interfaces with private landowners and Inventory development | L2b | WSP | Mott MacDonald | 100.00 | Declined | Atkins | 6.23 | | | | | | | |
| Setting Local Speed Limits in Wales update – consultancy support | L3 | Mott MacDonald | WSP | 22.11 | | Atkins | 37.98 | | AECOM | 24.20 | | | | |
| The North and Mid Wales Trunk Road Network Ash Dieback Driven Survey | L2b | Mott MacDonald | WSP | 31.33 | | Atkins | 100.00 | Declined | | | | | | |

***Ffigwr E3.2**: Tabl yn dangos canlyniadau mân-gystadleuaeth ar gyfer 2020/21, mae'r "% amrywiad" yn seiliedig ar y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y tendrau llwyddiannus ac aflwyddiannus.*



## E4 Monitro Perfformiad

### E4.1 2020/21 FY

Mae Noddwyr Prosiectau ACGCHC yn parhau i gynnal cyfarfodydd adolygu prosiectau yn rheolaidd gyda Rheolwyr Prosiect ymgynghorol ar amrywiol gamau yn ystod datblygu cynlluniau; mae'r cyfarfodydd yma yn amhrisiadwy er mwyn monitro cynnydd, y rhaglen a'r perfformiad mewn perthynas â phob comisiwn.


Cyflawnodd Noddwr Prosiect ACGCHC, mewn cydweithrediad â Rheolwyr Prosiect ymgynghorol, asesiadau Dangosyddion Allweddol (KPI) ar adeg cau prosiectau ar gyfer 79% o'r comisiynau yn 2020/21, drwy ddefnyddio PMS a'i adnodd adrodd KPI, ac mae manylion am hynny ar gael yn y dadansoddiad isod.


Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar 289 o asesiadau KPI yn cael eu cwblhau gan Noddwyr Prosiect ACGCHC ar adeg cau prosiectau, a 205 KPI yn darparu Adborth Cleientiaid drwy Reolwyr Prosiect Ymgynghorol ledled cadwyn gyflenwi ACGCHC.

| ConsultantName | Number of KPI's undertaken by Client | Number of KPI's undertaken by Concultancy |
|---|---|---|
| Atkins | 6 | 3 |
| Ceredigion | 17 | 11 |
| Conwy | 17 | 17 |
| Denbighshire | 18 | 6 |
| Mott MacDonald | 33 | 9 |
| Powys | 78 | 68 |
| WSP | 5 | 4 |
| YGC | 115 | 87 |
| **Total** | **289** | **205** |

***Ffigwr E4.1**: Tabl yn dangos nifer yr asesiadau KPI a gynhaliwyd yn 2020/21.*

Mae'r isod yn dangos yr ymgynghoriaeth gyfartalog gyffredinol a sgoriau KPI cleientiaid yn 2020/21:




Sgoriwyd yr holl asesiadau KPI yn unol â'r diffiniadau canlynol:

| Definition | Scores |
|---|---|
| Totally satisfied – Performance related to this KPI could not have been bettered | 9 - 10 |
| Good - Performance is such that at least 50% of the KPI requirements have been bettered | 7 - 8 |
| Neither satisfied nor dissatisfied – the minimum requirements of the commission related to this KPI have been met | 4 - 6 |
| Poor - Performance is such that not all of the minimum requirements related to this KPI have been met | 2 - 3 |
| Totally dissatisfied – Performance is such that all requirements related to this KPI have failed to be achieved | 1 |
| Not Applicable – This was not applicable to the project | *N/A* |

## E5 Cyllid

Llwyddodd ACGCHC i gyflawni rhaglen Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 gyda gwariant yn ystod y flwyddyn o £59.76M ledled yr Asiantaeth (gweler ffigwr 1), a chafodd £9.41M o hynny ei gaffael gan Dîm Cyflawni ACGCHC ar gyfer gwasanaethau ymgynghori.

## E6 Prosiectau Arwyddocaol Darpariaeth Cyfalaf ACGCHC

Isod ceir diweddariad ar nifer o gomisiynau Cyfalaf sydd yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan ACGCHC ar ran Llywodraeth Cymru ar y rhwydwaith Cefnffyrdd sydd â phwysigrwydd strategol a gweinidogol:

**Cynlluniau Diogelwch Canolbarth Cymru (Cyfleoedd Goddiweddyd yn Flaenorol) (ACGCHC/WSP)** - WelTAG Cam 1 wedi ei gwblhau; bydd WelTAG Cam 2 yn cael ei gwblhau erbyn Medi/Hydref 2021 oherwydd bydd raid ailadrodd yr Ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mehefin - Awst 2021. Yna bydd yr opsiynau ymddangosol a ffafrir y cael eu datblygu ymhellach er mwyn cynnwys WelTAG Cam 3 erbyn dechrau 2022. Hefyd disgwylir y bydd yr ail swp o gynlluniau a enwyd yn WelTAG Cam 1 yn cael eu datblygu ymhellach yn 2021/22.

**Cyffordd 19 yr A55 Glan Conwy (ACGCHC/WSP)** - WelTag Camau 1, 2 a 3 wedi eu cwblhau a'r prif waith adeiladu wedi ei gwblhau yn Ionawr 2021 yn cynnwys Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 3. Bydd mân ymyriadau o ran Teithio Actif ac Arwyddion yn digwydd, yn ogystal â monitro ôl-gynllun ac adroddiadau ar WelTAG camau 4 a 5 yn gynnar yn 2021.

**Cylchfan Halton A5/A483 (ACGCHC/WSP)** - WelTAG Cam 1 wedi ei gwblhau; bydd WelTAG Cam 2 yn cael ei gwblhau erbyn Hyd/Tach 2021, a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng Gorffennaf - Medi 2021. Yna bydd yr opsiwn ymddangosol a ffafrir yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn cynnwys WelTAG Cam 3 erbyn dechrau 2022.

**Gwella C3 - C6 yr A483 Wrecsam - CA2 (ACGCHC/Motts)** - Proses Cyfnod Allweddol 2 Llywodraeth Cymru , yn cynnwys WelTAG Cam 2, wedi ei gwblhau yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus llwyddiannus a ddaeth i ben yn Nhachwedd 2021. Gwnaethpwyd cyhoeddiad gweinidogol ym mis Mawrth i gefnogi'r opsiynau/llwybrau a ffafrir. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni Cam allweddol 3 a 4 yn cynnwys WelTAG Cam 3 a dyluniad cychwynnol yr opsiynau/llwybrau a ffafrir yn 2021/22.

**Gwella Pont Afon Dyfrdwy yr A494 (ACGCHC/Motts)** - Yn dilyn y cyhoeddiad gweinidogol ar 18 Medi 2019 o blaid yr opsiwn a ffafrir, cyflwynwyd WelTAG Cam 3 - Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru oedd hefyd yn cefnogi'r opsiwn a ffafrir, a rhoddwyd i'r opsiwn a ffafrir Gymhareb Budd-Cost (BCR) o 9.8, ond oherwydd yr oedi o ran cyhoeddir gorchmynion bydd adroddiad WelTAG 3 angen ei diweddaru yn unol â pholisïau newydd a blwyddyn agor ddiwygiedig, a bydd y gwaith hwnnw yn mynd rhagddo ym Mai 2021. Parhaodd y gwaith cyflunio cychwynnol, yn cynnwys arolygon amgylcheddol ac archwiliadau tir, drwy gydol 2020/21, gyda dyluniadau uwch yn cael eu gwneud ar gyfer elfennau allweddol y prosiect (h.y. Pont Network Rail a'r Bont i'r Gorllewin) yn ogystal â bwrw ymlaen â phroses 'C4' yr Ymgymerwyr Statudol er mwyn lleihau risgiau y rhaglen adeiladu. Bydd Gorchmynion Drafft a'r Datganiad Amgylcheddol yn cael eu cyhoeddi ym Mehefin/Gorffennaf 2021 a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn hwyr yn 2021, a dylai hynny ddod â'r broses statudol i ben.

**Gwytnwch Rhwydwaith A55/A494 (ACGCHC/WSP)** - Ar ôl llwydo i gwblhau WelTAG Cam 1 yn 2017/18, ailgyflwynwyd adroddiad a chrynodeb gweithredol WelTAG Cam 2 i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 yn unol â newidiadau polisi. Cwblhawyd WelTAG Cam 3, 4 a 5 yn 2020/21 ar ôl llwyddo i gyflawni'r opsiynau budd cyflym a'r opsiynau tymor byr yn 2019/20. Yn ystod 2020/21 datblygwyd mwy ar rai o'r opsiynau tymor canolig a hirdymor, yn cynnwys Gwella Gwytnwch Bryn Aston yr A494, Gwytnwch Bae Colwyn yr A55 (C19-23), Heol Araf Allt Llaneurgain (i'r Gorllewin), dyluniad manwl cyfyngiadau HGV ar gyfer goddiweddyd i fyny elltydd ar yr A55/A494 (treial) yn ogystal ag adolygiad o'r Llwybrau Gwyro Strategol a Thactegol. Bydd ymarferiad caffael arall yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021 yn dilyn cyfarwyddyd diweddar gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynlluniau hyn drwy WelTAG Camau 1-3, yn cynnwys y broses ddylunio gychwynnol.

# ATODIAD F

# Adroddiad ar Statws Contractau Fframwaith ACGCHC

**Fframweithiau ACGCHC, caffael contractau**
**Adroddiad statws, Mai 2021**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Trosolwg** | | | |
| | *Mae'r nodyn briffio yn rhoi diweddariad ar statws a chynnydd Fframweithiau ACGCHC.* | | | |
| **1.1** | **Fframweithiau ACGCHC, statws cyfredol** | | | |
| | **Fframwaith** | **Contract NEC** | **Dyddiad Dyfarnu'r Contract** | **Dyddiad dod i ben** |
| | Gwaith gosod wyneb a gwaith ategol | NEC4 | 31/03/2021 | 31/03/2023 *(+1bl + 1bl)* |
| | Gwaith Coed | NEC4 | 12/10/2020 | 12/10/2022 *(+1bl + 1bl)* |
| | Contractwr | NEC4 | 27/04/2020 | 27/04/2022 *(+1bl + 1bl)* |
| | Rheoli Traffig | NEC4 | 11/06/2019 | 11/06/2022 *(+1bl + 1bl)* |
| | Technoleg | NEC4 | 29/10/2018 | [1] 22/10/2021 *(+1yr TBC)*<br>[1] *(ni fydd yn cael ei ymestyn)* |
| | Ymgynghoriaeth | NEC4 | 07/09/2018 | [2] 06/09/2021 *(+1yr TBC)*<br>[2] *(i'w ymestyn tan Medi 22)* |
| **2.** | **Fframweithiau, cyffredinol** | | | |
| **2.1** | **Gwaith gosod wyneb a gwaith ategol 2021** | | | |
| 2.1.1 | Hysbysiad Dyfarnu Contract ar gyfer Contract Fframwaith Gwaith Gosod Wyneb a Gwaith Ategol wedi ei gyhoeddi ar 31/03/2021. | | | |
| 2.1.2 | Rhoddodd Tîm Masnachol (CT) ACGCHC nodyn briffio Strategaeth Caffael i PA yn Chwefror 2020. Roedd CT wedi cynnal gweithdai gyda chynrychiolwyr o Bartner Awdurdodau er mwyn cael adborth, clywed am y gwersi a ddysgwyd a gofynion technegol a manylebau. | | | |
| 2.1.3 | Cynrychiolwyr o siroedd Gonwy, Ddinbych a'r Fflint oedd y tîm gwerthuso tendrau ar gyfer sgorio'r cyflwyniadau Technegol yn is-lotiau Ffyrdd Sirol y Fframwaith hwn. | | | |
| 2.1.4 | Trefnodd tîm Masnachol ACGCHC gyflwyniad gweminar o'r Fframwaith newydd ar 24/03/2021; estynnwyd gwahoddiad i'r cyflwyniad hwn i HOS a Rheolwyr Cynnal a Chadw PA. | | | |
| 2.1.5 | Nid yw ACGCHC wedi derbyn unrhyw ymholiadau na phryderon arwyddocaol mewn perthynas â'r fframwaith hwn, ond mae'n ddyddiau cynnar ar y fframwaith o hyd. | | | |
| **2.2** | **Gwaith Coed** | | | |
| 2.2.1 | Hysbysiad dyfarnu Contract ar gyfer Contract Fframwaith Gwaith Coed wedi ei gyhoeddi ar 12/10/2020. | | | |
| 2.2.2 | Cyflwynodd Tîm Masnachol (CT) ACGCHC Adroddiad Strategaeth Caffael i HOS ym Mehefin 2020 gan ofyn am sylwadau ar strategaeth caffael y fframwaith hwn. | | | |
| 2.2.3 | Trefnodd tîm Masnachol ACGCHC gyflwyniad gweminar o'r Fframwaith newydd ar 14/10/2020; estynnwyd gwahoddiad i'r cyflwyniad hwn i HOS a Rheolwyr Cynnal a Chadw PA. | | | |
| 2.2.4 | Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd ychydig iawn o gyfathrebiadau neu hysbysiadau ynghylch pryderon am ddefnydd PA o'r Fframwaith hwn. | | | |
| **2.3** | **Fframwaith Contractwyr** | | | |

| | |
|---|---|
| 2.3.1 | Yn ddiweddar mae Fframwaith Contractwyr ACGCHC wedi cwblhau blwyddyn gyntaf cyfnod y Fframwaith. |
| 2.3.2 | Rydym yn ymwybodol bod rhai PA yn comisiynu gwaith mewn perthynas â Lotiau penodol y Fframwaith hwn. Yn ystod y cyfnod mae ACGCHC wedi darparu cymorth a chanllawiau i arweinwyr PA ar gais. |
| **2.4** | **Ymgynghoriaeth Amlddisgyblaethol** |
| 2.4.1 | Diwedd tymor y 3edd flwyddyn yw Medi 2021. Mae ACGCHC yn bwriadu defnyddio'r estyniad 1 flwyddyn hyd at Fedi 2022. Rydym yn bwriadu hysbysu ymgynghorwyr a defnyddwyr am yr estyniad yma yn fuan. |
| 2.4.2 | Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd ychydig iawn o gyfathrebiadau neu hysbysiadau ynghylch pryderon am ddefnydd PA o'r Fframwaith hwn. |
| **2.5** | **Technoleg** |
| 2.5.1 | Dyddiad terfyn y fframwaith presennol yw Medi 2021. Nid yw ACGCHC yn bwriadu ymestyn y fframwaith hwn y tu hwnt i'r dyddiad hwn. |
| 2.5.2 | Rydym wedi trefnu gweithdai yn ystod y cyfnod gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys defnyddwyr PA hysbys, er mwyn derbyn adborth, ac adolygu gwersi a ddysgwyd o ddefnyddio'r Contract Fframwaith presennol. Bu'r gweithdai yma yn amhrisiadwy o ran derbyn adborth gan ddefnyddwyr profiadol a gwybodus ynghylch y Contract Fframwaith presennol. Rydym wedi mynd ati i ystyried yr adborth a'r gwersi a ddysgwyd er mwyn cynnwys hynny yn y Contractau Fframwaith newydd. |
| 2.5.3 | Ar ôl cwblhau'r gweithdai, nid yw CT yn bwriadu defnyddio'r opsiwn o estyniad o 12 mis ar y FC presennol, a rhoddir y prif resymau isod: -<br>• Cyflenwyr FC presennol, gweinyddol; diffyg gwytnwch a chystadleuaeth oherwydd nad yw rhai cyflenwyr yn y Fframwaith yn masnachu mwyach;<br>• Tanberfformio gan gyflenwyr, yn arbennig Goleuadau Strydoedd Lot 2;<br>• Strwythur Lotiau; gwelliannau i'r strwythur Lotiau presennol yn cynnwys Lotiau ychwanegol ar gyfer dylunio a gwaith;<br>• Diwygiadau i is-lotiau rhanbarthol ;<br>• Diwygiadau posibl i'r weithdrefn ddethol (mân-gystadleuaeth / dyfarniad uniongyrchol). |
| 2.5.4 | Strwythur arfaethedig Contractau Fframwaith newydd;<br>a) Dau Gontract Fframwaith seiliedig ar Ddyluniad 'Technoleg' a Gwaith;<br>b) Lotiau Ychwanegol ar gyfer dyluniad strwythurol, trydanol a mecanyddol;<br>c) Mae Lotiau Gwaith wedi'u lleoli'n rhanbarthol gan Bartner Awdurdodau. |
| 2.5.5 | Cyhoeddodd ACGCHC Hysbysiad PIN ar Sell2Wales ym mis Ebrill 2021. |
| 2.5.6 | Mae ACGCHC wedi trefnu digwyddiad i brynwyr er mwyn cyflwyno strwythur y fframweithiau newydd, ac anfonwyd gwahoddiad agored i PA ar 19/05/2021. |
| 2.5.7 | Mae ACGCHC yn bwriadu cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract ar gyfer y fframweithiau newydd fydd yn disodli'r Contract Fframwaith Technoleg ym Medi 2021. |
| **2.6** | **Rheoli Traffig** |
| 2.6.1 | Dyddiad dechrau; 11 Mehefin 2019. Dyddiad dod i ben; Mehefin 2022. |
| 2.6.2 | Ers i fersiwn gyntaf y fframwaith hwn ymddangos, mae perthnasoedd, prosesau ac arferion gorau wedi cael eu mireinio mewn nifer o feysydd. Mae cyflwyno'r contract wedi arwain at ddeialog adeiladol rhwng PA sydd yn defnyddio'r fframwaith a'r cyflenwyr allweddol. Mae dadansoddiad o KPI monitro perfformiad gan PA wedi dangos bod yna fwy o gysondeb o ran |

| | |
|---|---|
| | cymhwyso TM ledled y rhwydwaith cefnffyrdd, a mwy o ystyriaeth yn cael ei roi yn benodol i gydymffurfiaeth â Phennod 8 ac arferion gorau gan yr holl bartïon, yn arbennig Cleientiaid. |
| 2.6.3 | Mae un cyflenwr (Ekult) wedi rhoi'r gorau i fasnachu, sydd yn lleihau gwytnwch yn Lot 5. Nid yw ACGCHC yn ymwybodol bod hynny wedi achosi unrhyw broblemau hyd yma. |
| 2.6.4 | Mae ACGCHC yn parhau i drefnu cyfarfodydd (chwarterol) rheolaidd gyda chyflenwyr TM allweddol. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn y cyfarfodydd yma. |
| **3.** | **Risgiau i'r Fframwaith (Partner Awdurdodau)** |
| 3.1 | Mae ACGCHC wedi darparu mynediad i ganllawiau, prosesau a dogfennau contract ar gyfer yr holl fframweithiau ar dudalen Fframweithiau porth cydweithredu ACGCHC. |
| 3.2 | Risgiau i'w hystyried<br><br>• Diffyg cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;<br>• Ffurfioli contractau; cyhoeddi Data Contract Rhan 1;<br>• Diffyg cysondeb ac ansawdd o ran gweinyddu contractau;<br>• Cyflawni gwerth ariannol gorau drwy broses gaffael sydd yn dyfarnu'n uniongyrchol. |

# ATODIAD G

## Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor
**(Dyfyniad o Gytundeb Partneriaeth 2012)**

## 9 Y Cyd-bwyllgor

9.1 Bydd yr Awdurdodau'n creu cydbwyllgor (Cyd-bwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru) at y diben a nodir yng nghymal 9.2

9.2 Bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am gynorthwyo'r Awdurdod Arweiniol a'r Unedau Darparu Gwasanaethau o ran bodloni gofynion y Cytundeb Asiantaeth a dyma fydd ei gylch gorchwyl:

9.2.1 monitro'r broses o ddyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaethau

9.2.2 sicrhau bod yr Uned Rheoli Cefnffyrdd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y Cytundeb Asiantaeth.

9.2.3 monitro perfformiad Unedau Darparu Gwasanaethau

9.2.4 cael adroddiadau ar reoli'r trefniadau Partneriaeth, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gweithredu'n foddhaol

9.2.5 monitro trefniadau a chynigion fel y gellir gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru o dan y Cytundeb Partneriaeth

9.2.6 ystyried materion a gyfeirir at y Cyd-bwyllgor o dan gymal 9.6

9.3 Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor

9.3.1 Bydd y Cyfarfod Cychwynnol yn mynd rhagddo cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl llofnodi'r Cytundeb hwn. Wedi hynny, bydd y Cyd-bwyllgor yn cwrdd fesul cyfnod y bydd y Cyd-bwyllgor yn cytuno arno, ond o leiaf unwaith ym mhob Blwyddyn Ariannol a

9.3.2 bydd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol yn cael ei gynnal cyn 30 Medi yn y flwyddyn honno

9.3.3 y Cadeirydd a fydd yn penderfynu ar amser a lleoliad cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor

9.3.4 bydd darpariaethau paragraff 3 o Ran 1 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (galw cyfarfodydd eithriadol) yn gymwys i'r Cytundeb hwn ar wahân i'r amrywiad y bydd cyfeiriadau at 'bum aelod' yn y paragraff hwnnw yn cael eu dehongli'n gyfeiriadau at 'Bedwar Awdurdod'

9.4 Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor

9.4.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnwys wyth (8) cynghorydd, un (1) o bob un o'r Awdurdodau. Bydd Dirprwyon yn cael eu caniatáu pan nad yw aelod penodedig awdurdod yn gallu bod yn bresennol.

9.4.2 Bydd pob Awdurdod yn cael un bleidlais. Oni bai y datganir fel arall, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif pleidleisiau syml. Bydd cworwm os oes o leiaf un aelod o bob un o bum Awdurdod.

9.4.3 Ac eithrio fel yr amrywir gan y Cytundeb hwn, bydd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Arweiniol yn gymwys i drafodion y Cyd-bwyllgor a bydd yr Awdurdod hwnnw'n gyfrifol am y trefniadau gweinyddol mewn cysylltiad â chynnull cyfarfodydd o'r Cyd-bwyllgor.

9.4.4 Prif Weithredwr yr Awdurdod Arweiniol fydd swyddog priodol y Cyd-bwyllgor at ddibenion Deddf 1972 a bydd Cynllun Dirprwyo'r Awdurdod Arweiniol yn gymwys i'r graddau y mae'n berthnasol.

9.5 Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

9.5.1 Ni fydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor mewn unrhyw flwyddyn o'r un Awdurdod.

9.5.2 Gellir ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghylch diwygiadau neu amrywiadau i'r Cytundeb Asiantaeth ac ynghylch ymrwymo i Gytundebau Asiantaeth pellach.

9.6 Rôl Swyddogion

9.6.1 Bydd y Prif Swyddogion yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw gytundebau eraill rhwng yr Awdurdod Arweiniol ac Unedau Darparu Gwasanaethau, ac yn unol â'r Cytundeb Asiantaeth

9.6.2 Bydd y Rheolwr Asiantaeth yn gweithredu'n swyddog adrodd i'r Cyd-bwyllgor gan gael ei gynorthwyo yn ôl yr angen gan y Prif Swyddogion

9.6.3 Os yw unrhyw Brif Swyddog â rheswm dros ystyried bod yr Uned Rheoli Cefnffyrdd yn caffael gwasanaethau mewn ffordd sy'n anghyson â'r Cytundeb hwn, bydd yn ofynnol iddo yn y lle cyntaf grybwyll y mater wrth y Rheolwr Asiantaeth er mwyn datrys y mater;

9.6.4 Os yw'r Rheolwr Asiantaeth o'r farn nad yw UnedDarparu Gwasanaethau yn cyflawni gofynion y Cytundeb hwn, bydd yn crybwyll y mater yn y lle cyntaf wrth y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am yr Uned Darparu Gwasanaethau er mwyn datrys y mater

9.6.5 Os yw'r materion a grybwyllwyd yn adrannau9.6.3 neu 9.6.4 yn parhau heb eu datrys, bydd Prif Swyddog yr Uned Darparu Gwasanaethau a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Awdurdod Arweiniol yn ystyried y mater ac yn ceisio'i ddatrys.

9.6.6 Os yw'r mater, ar ôl ei ystyried, yn parhau heb ei ddatrys, gall y Prif Swyddog neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyfeirio'r mater at y Cyd-bwyllgor i benderfynu arno.